
# 25 llais



UNISON Cymru



# Rhagarweiniad
## Darron Dupre
Darron Dupre, Pennaeth Llywodraeth Leol, UNISON Cymru

Mae cyllid i gynghorau yng Nghymru ar groesffordd dyngedfennol a bydd canlyniad hynny'n penderfynu a fydd gwasanaethau, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, staff a llu o sefydliadau sy'n gwneud Cymru'n lle gwell a mwy hynaws i fyw ynddo'n derbyn cefnogaeth a darpariaeth ar eu cyfer yn y dyfodol.

*Pum Llais Ar Hugain* yw geiriau go iawn a diffuant gan bobl go iawn ar draws gwlad ryfeddol ein Cymru gyfoes sy'n lleisio barn am ba mor bwysig yw'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu neu ariannu gan gynghorau Cymru iddyn nhw. Ac yr un mor bwysig yw sut y gall cymorth wedi'i ariannu'n dda i'r fyddin o ofalwyr teuluol, fel Tilly a Chris, wneud yr holl wahaniaeth yn y byd i'w bywydau nhw hefyd.

Yr hyn sy'n glir o'n lleisiau yw bod cyllid llywodraeth leol digonol yn bwysig i bob person sy'n byw yng Nghymru.

Mae *Pum Llais Ar Hugain* yn amrywio o ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth i staff cyngor, cynrychiolwyr UNISON ac arweinwyr cyngor, o Brif Weithredwyr cyrff di-wneud-elw i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymdeithas Pêl-droed Cymru.

Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am rannu eu lleisiau mor barod ag eraill yn y cyhoeddiad hwn gan UNISON ac am ymddiried ynom i roi llwyfan i'w barn.

Mae'r holl leisiau a lluniau wedi eu darparu ar gyfer y cyhoeddiad hwn yn unig ac ar y sail ei fod, yn sylfaenol, yn wleidyddol amhleidiol ei natur. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw sylw na llun na'u defnyddio ychwaith ar gyfer unrhyw ymgyrch arall, gwleidyddol neu beidio, p'un ai'n ysgrifenedig neu ar y cyfryngau cymdeithasol, heb ganiatâd penodol yr awduron eu hunain.

Rhagfyr 2025



## Y Cyng. Anthony Hunt

Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Fi'n Arweinydd Cyngor yng Nghymru ac yn gweithio gyda staff lywodraeth leol anhygoel i ddiogelu gwasanaethau lleol hanfodol. Ddylen ni byth anghofio mai gwasanaethau cyhoeddus yw ffrwyth ymdrechion y bobl sy'n gweithio i'w darparu, o'n hysgolion i ofal cymdeithasol, gwasanaethau amgylcheddol a chymunedol. Y gwasanaethau hyn yw'r glud sy'n dal ein cymunedau wrth ei gilydd fel eu bod yn gweithio'n dda a helpu'r anghenus.

Mae gyda nhw hefyd rôl atal bwysig, oherwydd yn ogystal â gwella bywydau pobl, maen nhw hefyd yn helpu i ysgafnu'r galw ar wasanaethau aciwt fel y GIG. Er enghraifft, y person sy'n derbyn prydau bwyd a chymorth yn y gymuned i aros yn annibynnol. Neu'r gofalwr ifanc a gefnogir gan ein gwasanaethau. Neu'r bobl ifanc sy'n elwa o'n gwasanaeth chwarae, neu ddefnyddwyr ein llyfrgelloedd. Neu'r teulu sy'n derbyn cymorth a chyngor i'w helpu i ddod allan o ddyled ac osgoi bod yn ddigartref. Neu'r grŵp lleol sy'n helpu i wella lles iechyd corfforol a lles meddwl pobl yn eu cymuned. Mae'r bobl hyn i gyd yn cael eu helpu gan staff llywodraeth leol – sêr ein cymunedau.

Mae angen i ni helpu'r gweithwyr hyn i godi ein cymunedau ar eu traed ac ymyrryd yn gynt i helpu pobl i osgoi argyfwng. Yn anffodus, oherwydd cyni'r 15 mlynedd diwethaf, mae ein staff yn gorfod stryffaglan i wneud mwy gyda llai. Dyna pam fod llywodraeth leol wedi'i ariannu'n deg mor bwysig, er mwyn creu dyfodol gwell i'n cymunedau - fel bod gan bobl y gwasanaethau sydd ei angen arnyn nhw i ffynnu.



2

## **Dr Alun Thomas**
Prif Weithredwr, Adferiad

Dr Alun Thomas wyf fi, Prif Weithredwr Adferiad sef elusen bwysig sy'n darparu gwasanaethau i bobl ym mhob un o'r 22 sir yng Nghymru drwy roi cymorth iechyd meddwl ac i bobl sy'n gaeth i gyffuriau ac alcohol, cyn-filwyr, teuluoedd a gofalwyr, a gyda salwch meddwl difrifol.

Mae ein tîm *Diverse Cymru* yn gweithio'n galed i ddileu gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ac i greu cenedl lle y mae pawb yn gyfartal ac amrywiaeth yn cael ei ddathlu.

Fi yn fy 25ain blwyddyn o weithio gyda'r elusen a fi'n gwybod drwy ein gwaith integredig ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru na fu erioed mwy o angen gwasanaeth cyhoeddus cryf, ymatebol ac wedi'i ariannu'n dda. Pur anaml y mae gan bobl ond un her yn eu bywydau ac mae gwasanaethau cyhoeddus da'n allweddol i sicrhau bod pawb yng Nghymru'n cael eu cefnogi i fyw eu bywydau gorau, cyfranogi yn a chyfrannu at gymdeithas a theimlo'n rhan o'n cymunedau.

Gwaith partneriaeth rhwng elusennau a gwasanaethau cyhoeddus yw un o brif gryfderau'r ffordd a wnawn bethau yng Nghymru a gyda'n gilydd darparwn ofal a chymorth holistig, person-ganolog. Heb lefel iawn o gyllid ac adnoddau a heb gydnabod rôl y sector cyhoeddus, rydyn ni mewn perygl o golli un o gonglfeini ein cymdeithas yng Nghymru.

Mae llywodraeth leol gref yn eiriol dros bobl leol, yn rhoi llwyfan i leisiau'r bobl y mae'n eu cynrychioli a gweithio i ddarparu'r fframwaith cofleidiol sydd ei angen arnom yn ein bywydau pob dydd.

**Mark Fisher**

Ysgrifennydd Cangen,
Cangen UNISON Castell- nedd Port Talbot

Mae angen cyllid ychwanegol ar lywodraeth leol i gynnal ein gwasanaethau, swyddi, cyflogau a graddfeydd. Heb yr arian ychwanegol hwn bydd angen i Gyngor Castell-nedd Porth Talbot, fel pob un o'r 21 awdurdod lleol arall, gontractio ei wasanaethau'n allanol a lleihau costau, gan arwain at orfod diswyddo staff ar yr union amser y mae eu hangen arnom fwyaf.

Fi'n galw ar San Steffan i neilltuo arian ychwanegol i'r Senedd fel bo'r 22 awdurdod lleol yn gallu aros ar eu traed eu hunain yn eu cyllidebau. Gallai llai olygu gorfod cyflwyno rhybuddion Adran 188 fel y bu'n rhaid ei wneud yn Lloegr a gallent fynd i'r wal.

Fi'n galw hefyd ar y Senedd i weithio ag UNISON a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar fodel partneriaeth gymdeithasol sy'n gweithio i bawb.

3






## Denise Thomas
Gweithiwr Cymorth,
Elusen Allweddol

Fi wedi gweithio ers dros 30 mlynedd fel gweithiwr cymorth i elusen gofal cymdeithasol i oedolion. Dros y cyfnod hwnnw, mae gwasanaethau wedi cael eu herydu gan ddiffyg cyllid cronig. Pob dydd fi'n gweld y gwahaniaeth y gall gofal da ei wneud a'r straen os yw gwasanaethau'n brin o amser neu adnoddau. Mae staff ar eu gliniau, gwasanaethau dan bwysau mawr a sefydliadau'n cael eu gorfodi i dorri'n ôl.

Ni'n gweld cydweithwyr yn cael eu diswyddo a llawer yn gadael am gyflogau gwell mewn manwerthu, sy'n arwydd o'r diffyg gwerth a roddir i waith gofal. Ni'n gwneud gwaith tosturiol sydd angen sgiliau arbennig ond yn rhy aml yn cael ein diystyru a heb gael ein talu'n ddigonol. Mae gormod o bobl yn cael eu gadael heb y gofal y maen nhw'n ei haeddu.

Gofal cymdeithasol yw asgwrn cefn y GIG a hebddo ni allai ysbytai a gwasanaethau iechyd ymdopi. Ni allwn barhau fel hyn.

Yn 2026 mae angen cyllid gwell ar gynghorau Cymru er mwyn diogelu swyddi, gwerthfawrogi'r gweithlu, cadw gwasanaethau'n fyw a sicrhau mai mater o urddas, nid dim ond goroesi, yw gofal. Ni all pobl sy'n dibynnu ar ofal, a'r rhai ohonom sy'n ei ddarparu, aros dim hirach. Mae angen gwneud rhywbeth nawr am y sefyllfa.

## **Lianne Dallimore**
## Ysgrifennydd Cangen, UNISON Caerffili

Fi wedi gweithio i'r awdurdod lleol ers dros ugain mlynedd a thros y cyfnod hwnnw fi wedi gweld newidiadau mawr mewn sut y mae llywodraeth leol yn cael ei ariannu, ond hefyd o ran disgwyliadau. Mae amrywiaeth anferth o wasanaethau llywodraeth leol – chi'n gallu meddwl am un sydd ddim yn cael ei ddarparu gan eich cyngor lleol? Ddim yn hawdd yw e?

Llywodraeth Leol yw asgwrn cefn ein cymunedau a gyda chyllid iawn gall helpu i greu swyddi da, denu mewnfuddsoddiad ac arwain y ffordd ar greu cymunedau gwydn, cynhwysol ac amgylcheddol gyfrifol ar gyfer y dyfodol.



## **Sarah Williams**
## Cynghorydd Cydraddoldeb, Equality Counts



6

Mae tegwch a chynhwysiant yn bwysig i fi ac yn fy ngwaith fi'n helpu pobl i wneud penderfyniadau gwell a chael effaith gynhwysol. Fi'n gwneud hyn drwy greu polisïau, prosesau a gofodau tecach yn y gweithlu, mewn ymchwil ac iechyd. Fi'n credu y dylai pobl deimlo'n gyffyrddus i droi lan fel nhw eu hunain a theimlo eu bod yn perthyn. Mae fy nghefndir yn cynnwys arweinyddiaeth gynhwysol, safonau cydraddoldeb a swyddi cynghori cenedlaethol.

Ers symud o Gaerdydd i Sir Benfro, fi wedi gweld a phrofi pa mor wahanol y gall bywyd gwledig fod a sut y gall effeithio ar les pobl. Mae mynediad at wasanaethau, trafnidiaeth a chyfle'n amrywio mor eang a pham fod llywodraeth leol wedi'i ariannu'n iawn mor bwysig. Cynghorau sy'n adnabod eu cymunedau orau a phan wneir penderfyniadau drwy wrando ac ymgynghori'n deg, mae'r arian yn mynd i ble sydd fwyaf ei angen e.

Enghraifft dda o hyn yw Grant Urddas Mislif Sir Benfro, wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru ond ei ddarparu'n lleol. Mae'n dangos bod cyllid gwladol yn gweithio orau pan fydd cynghorau'n gallu ei addasu i anghenion lleol. Yn ein sir ni, mae hynny'n cynnwys opsiwn post i drigolion gwledig sy'n methu cyrraedd pwyntiau casglu'n hawdd. Mae prosiectau fel hyn yn helpu i leihau anghydraddoldeb ar lawr gwlad a diogelu urddas pobl yn eu bywydau pob dydd, lle y mae hyd yn oed y mislif yn cael ei gyfri'n bwysig.

Mae penderfyniadau teg a meddylgar gan gynghorau, o doiledau i drafnidiaeth, yn helpu pobl i deimlo'n hyderus a'u bod yn perthyn a bod cymorth ar gael, yn enwedig mewn cymunedau gwledig lle na allwch ragdybio dim oll am angen.

Bydd pob penderfyniad a wnawn heddiw i wneud bywyd pob dydd yn decach yn effeithio ar ba mor hawdd y gall cenedlaethau'r dyfodol fyw'n dda, gweithio a pherthyn. Mae hyn yn bwysicach fyth i helpu pobl ag anghenion ychwanegol i symud o gwmpas oherwydd gall mynediad a dyluniad wneud y gwahaniaeth i gyd rhwng bod yn ynysig a chael eich cynnwys.

## Rachael Eagles

Prif Swyddog Gweithredol,
Area 43

Yn Area 43, darparwn gwnsela mewn ysgolion a chymunedau, hybiau ieuenctid diogel a chroesawus a chymorth wedi'i deilwrio ar gyfer lles, gwirfoddoli a chyflogadwyedd.

Gyda'i gilydd a phob blwyddyn, mae'r gwasanaethau hyn yn cyrraedd miloedd o blant a phobl ifanc ar draws Dyfed-Powys. Ni fyddai dim o hyn yn bosib heb lywodraeth leol wedi'i ariannu'n iawn. Cynghorau yw asgwrn cefn bywyd ein cymunedau gan sicrhau bod cymorth dibynadwy ar gael i bobl ifanc ynghyd â chyfle i dyfu a rhywle i droi pan fydd bywyd yn teimlo'n ormod.

I ni, mae llywodraeth leol wedi'i ariannu'n iawn yn fater o degwch, gwydnwch a gobaith sy'n diogelu gwasanaethau hanfodol heddiw a chreu cyfle i genedlaethau'r dyfodol.







8

## Derek Walker

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

*Fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, fi'n rhybuddio sut y mae'r argyfwng hinsawdd a natur yn bygwth lles ein plant a'n hwyrion ac wyresau. Heb weithredu, bydd ein dyfodol yn un na allwn ei adnabod ac ni fydd y dewisiadau sydd ar gael i ni heddiw ar gael mwyach neu'n rhai anoddach nag y gallwn fyth ei ddychmygu.*

*Mae llywodraeth leol ar flaen yr ymdrechion i liniaru newid hinsawdd ac adfer natur. Ond heb fuddsoddiad iawn, ni all ein cynghorau gymryd y mesurau brys sydd angen eu cymryd i ddiogelu'r blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*

*Mae'r angen i fuddsoddi'n iawn mewn gwasanaethau cyhoeddus yn bwynt a wnes i'n gryf yn fy adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn Ebrill 2025 sydd ar gael yn: https://futuregenerations.wales/cym/wp-content/uploads/sites/2/2025/05/Adroddiad-Cenedlaethaur-Dyfodol-2025.pdf*

**Evelyn Williams**
Gweithiwr Cymdeithasol




Fi'n Weithiwr Cymdeithasol sy'n rhan o Dîm Maethu. Fi wedi gweithio i fy nghyngor lleol ers Medi 1999 yn y maes gofal plant yn gweithio gyda theuluoedd a phlant. Mae asesu wedi bod yn rhan hanfodol o fy rôl a fi wedi cael y fraint o fod yn rhan o fywydau pobl pan oedden nhw ar eu mwyaf bregus a chael nhw'n ymddiried ynof fi i weithredu ar eu rhan.  Fi wedi bod yn fy swydd bresennol ers Ionawr 2019 a 2025 felly yw fy 26ain blwyddyn o weithio gyda'r cyngor.

O edrych yn ôl ar fy mhrofiadau fel gweithiwr cymdeithasol gofal plant, fi ddim yn meddwl bod llawer wedi newid o ran yr heriau fi wedi eu hwynebu sy'n cynnwys prinder amser i wneud pethau, llwythi achosion llawer rhy drwm, trafferthion staffio a recriwtio, toriadau cyllid / gwasanaeth a gweithio gyda theuluoedd mewn argyfwng, i enwi ond rhai.

Yn fy marn i byddai system gofal cymdeithasol wedi'i hariannu'n iawn yn un sy'n rhoi pwyslais ar achub pobl mewn angen, gyda chymorth ar gael i bawb a gweithwyr cymdeithasol yn cael eu talu'n dda am eu gwaith gwerthfawr. Byddai gwasanaethau wedi eu teilwrio a'u haddasu i wahanol ddiwylliannau, ieithoedd, rhyweddau, rhywioldeb ac anabledd. Byddai'n system a fyddai'n symud o un seiliedig ar fodel ymatebol ar sail argyfwng i un ragweithiol, ataliol a seiliedig ar hawliau. Byddai'r cymorth yn cael ei gydlynu gan roi sylw i bob dimensiwn ar fywydau pobl ac nid yn fater o 'loteri' ar sail dosbarth pobl neu ble y maen nhw'n byw.

Er yr holl heriau, mae gwaith cymdeithasol yn dal i fod yn brofiad gwerth chweil a fi'n parhau i deimlo bod gweithwyr cymdeithasol yn gallu ac yn gwneud gwahaniaeth mawr.



10

## Molly Fenton BCAh

Fi'n ymgyrchydd iechyd 23 oed a sylfaenydd yr ymgyrch *'Love Your Period'* sy'n eiriol dros gynnwys llais go iawn pobl ifanc yn y gwasanaethau a ddefnyddiwn mewn cymdeithas, yn enwedig o ran iechyd.

Pan fydd gwasanaethau lleol wedi eu hariannu'n iawn ac yn wir gynhwysol, mae gan bobl ifanc y lle, y cymorth a'r cyfle y maen nhw'n ei haeddu i greu a pherthyn. Mae gyda ni'r pŵer i ddylanwadu ar ein dyfodol a chynnau'r tân ynom i greu newid.

Byddai pobl ifanc yna'n gwybod bod eu llais yn wirioneddol bwysig.

Nid mater o bolisi da ddylai buddsoddi yn hynny fod ond mater o greu'r gobaith angenrheidiol am y math o wlad ni moyn bod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Tilly Fenton
Gofalwr ifanc

Fi wedi treulio fy arddegau i gyd yn gofalu am fy chwaer a heb fynd mas a chwarae a chymdeithasu fel fy ffrindiau eraill i gyd.

Roeddwn i'n teimlo mor ynysig ac unig weithiau.

Mae cael cyllid i ofalwyr yn golygu ni'n gallu dod at ein gilydd i wneud gweithgareddau a gwneud ffrindiau 'da'r bobl chi'n gallu uniaethu 'da nhw.

Mae'r cyllid hwn hefyd yn rhoi teimlad o werth oherwydd mae bod yn ofalwr ifanc yn anodd ac mae'n braf cael ein gweld.



11



12

## Logan Toy

Fi'n gweithio i Gyngor Caerffili yn yr adran lanhau. Fy swydd i yw cadw fy nghymuned yn lân, taclus a bod gwastraff yn cael ei waredu fel y dylai gyda fy nghriw a chydweithwyr.

Fi'n credu bod y gwaith hwn, a hefyd y gwaith a wneir gan nifer o adrannau eraill mewn llywodraeth leol, yn rhywbeth fydd wastad angen ei wneud a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn yr adnoddau a'r cyllid a dderbyniwn i wneud ein gwaith yn iawn.

Mae llywodraeth leol wedi'i ariannu'n iawn yn bwysig i fi a fy nghymuned i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ein cyngor lleol yn cael eu rhedeg yn fwy effeithlon ac i safon uwch ar draws y bwrdd.



13

**Y Cyng. Jane Gebbie**
Dirprwy Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Nid darparwr gwasanaeth yn unig yw llywodraeth leol yng Nghymru ond arian byw ein cymunedau. O ddiogelu ein pobl fwyaf bregus i addysgu ein plant, cadw ein strydoedd yn lân a chefnogi'r economi leol, mae cynghorau'n flaenllaw i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Ond eto flwyddyn ar ôl blwyddyn, disgwylir i gynghorau wneud mwy gyda llai gan wasgu cyllidebau i'r pwynt o dorri wrth wynebu mwy o alw a chostau uwch.

Ni all y sefyllfa barhau fel hyn. Dyw e ddim yn deg. Ac mae pobl Cymru'n haeddu gwell.

Mae angen setliad cyllid sy'n adlewyrchu gwir werth llywodraeth leol, sy'n cydnabod y rôl hanfodol y mae cynghorau'n ei chwarae mewn delio â thlodi, anghydraddoldeb a newid hinsawdd.

Rhaid i San Steffan roi'r gorau i drin cynghorau Cymru fel eilbeth. Nid moethusrwydd yw cyllid gwell ond anghenraid i sicrhau Cymru gyfiawn, wydn a ffyniannus.

Mae buddsoddi mewn llywodraeth leol yn fuddsoddiad yn nyfodol ein cymunedau.

Mae'n amser sefyll lan, dweud ein dweud a mynnu'r tegwch ariannol y mae Cymru'n ei haeddu.

## **Amanda Price**
Cynorthwy-ydd Addysgu



Fi'n gynorthwyydd addysgu yn Ysgol Bae Baglan. Fi'n cefnogi plant gyda nam ar eu clyw'n defnyddio BSL (Iaith Arwyddion Prydain). Fi hefyd yn codi arian ar gyfer ADY.  Mae ein cyllid yn sylweddol is nag yn y gorffennol ac nid oedd ein hapêl yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith enfawr ar ein hadran a ni wedi gorfod newid sut ni'n trefnu tripiau gan chwilio am yr opsiwn rhataf er mwyn cadw costau lawr ar gyfer rhieni neu warcheidwaid.

Mae gyda ni fanc gwisg ysgol ac adran gwisgoedd prom i helpu pawb sydd angen. Fel arfer ni fyddai hyn yn fater i'r cyngor a ni wastad yn gwneud ein gorau i helpu disgyblion a'r gymuned ehangach. Ni'n byw mewn cymuned dlawd a bydden ni fel arfer yn darparu pinnau ysgrifennu a phensiliau ac yn y blaen ond nid yw'r arian gyda ni i wneud hyn. Ni'n cynnal raffl Nadolig a raffl Pasg a digwyddiad codi arian yn yr haf ond dyw e dal ddim yn ddigon i dalu'r costau. Ni'n isel ar lyfrau a phethau eraill.

Ond yn bwysicach, ni'n isel ar staff. Does dim cymorth ar gael mewn rhai o'n dosbarthiadau oherwydd dyw'r arian ddim ar gael er bod gwir angen. Mae'r dosbarthiadau gyda chymorth bellach yn orlawn. Fel y codwr arian, fi'n cael mwy a mwy o geisiadau i helpu i godi arian. O'r blaen roedd arian mân ar gael at achosion brys ond ni allwn fforddio hyn nawr.

Hefyd, pethau fel cynhwysion coginio a chyfarpar i'r adrannau technoleg lle y mae disgyblion yn creu pethau a mynd â nhw gartre. Ni'n gofyn am gyfraniad bychan tuag at y gost ond nid yw'n agos i'r gost derfynol fel y gallwch ei ddychmygu.

Ni hefyd wedi gweld llawer o staff da'n gadael oherwydd y cyflog isel.

**Denise Owen**
Ysgrifennydd Cangen,
UNISON Ceredigion

Fel cynrychiolydd undeb, fi'n siarad gyda'n haelodau pob dydd - pobl sy'n teimlo'n gryf am eu swyddi a'u cymunedau. Nhw yw'r gweithwyr gofal sy'n cefnogi preswylwyr bregus, y cynorthwywyr addysgu sy'n sicrhau bod plant yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd, y timau sbwriel a glanhau sy'n cadw ein trefi a phentrefi'n lân a diogel. Nhw yw curiad calon gwasanaethau lleol yng Ngheredigion.

Fi'n gweld ymroddiad y gweithwyr hyn drosof fy hun. Mae llawer yn mynd y filltir arall gan weithio'n aml dan bwysau aruthrol oherwydd eu bod yn credu mewn beth maen nhw'n ei wneud.

Ond ni fydd angerdd yn unig yn cadw gwasanaethau i redeg, rhaid cael buddsoddiad iawn.

Y funud hon, gofynnir i'n haelodau wneud mwy gyda llai ac mae cymunedau'n teimlo effaith hynny.

Mae sut y mae Cymru'n cael ei hariannu drwy fformiwla Barnett yn annheg ac wedi hen ddyddio. Dyw e ddim yn adlewyrchu'r wir gost o ddarparu gwasanaethau mewn siroedd gwledig fel un ni. A dyw'r setliad cyllid i awdurdodau lleol ddim yn ddigon i gwrdd â phwysau cynyddol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol lle y mae'r galw'n cynyddu a gwasanaethau'n methu ymdopi fel y mae hi.




Pan fydd cynghorau wedi eu tan-gyllido, nid gwasanaethau'n unig sy'n dioddef ond pobl. Mae'r gweithwyr sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn haeddu tâl teg, amodau gwaith parchus ac adnoddau digonol i wneud eu gwaith yn iawn. Mae'r cymunedau a wasanaethir gan y gweithwyr hyn yn haeddu gwasanaethau dibynadwy wedi eu hariannu'n iawn i gwrdd ag anghenion gwirioneddol.

Mater o degwch, urddas a pharch yw hyn. Os ni moyn cymunedau cryf a gwydn yng Nghymru, rhaid i ni fuddsoddi mewn llywodraeth leol a'r gweithwyr sy'n ei chadw i fynd.

## **Vikki Giles**
## Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel Uwch

Fi wedi gweithio yn yr unig Ysgol Arbennig a chanolfan adnoddau sydd gan Sir Gaerffili, Trinity Fields, ers 2002. Dechreuais yno fel gweithiwr canol dydd cyn dod yn TA lefel 1 ac wedyn TA lefel 3, wedyn yn ystod pandemig Covid fe wnes i gymhwyso fel HLTA!

Fi wrth fy modd gyda fy swydd a dyna sy'n dod â fi at y drws pob dydd oherwydd dyw'r cyflog yn sicr ddim yn gwneud hynny. Pob dydd fi'n cerdded drwy'r drysau a'r wynebau bach hapus sy'n fy nghyfarch yw'r rheswm fi wedi aros yn fy swydd am gyn hired. Fi'n ffodus iawn o weithio gyda disgyblion gwych a hefyd gyda chydweithwyr anhygoel.

Mae unrhyw gynnydd y mae plentyn yn ei wneud yn enfawr, o ddysgu sut i sipio eu côt ar ben eu hunain i sefyll arholiad TGAU, maen nhw mor wych â'i gilydd a fi'n falch o fod yn rhan o hynny.

Ond er bod y gwaith yn hyfryd, mae'n dod gyda her a thorcalon. Ni'n gweithio gyda phlant sydd ag anghenion dysgu a meddygol cymhleth a ni'n aml yn cael ein herio'n gorfforol gan blant ac oedolion ifanc sy'n cael trafferth deall y byd o'u cwmpas.

Fi'n fwy na TA, fi hefyd yn nyrs, gofalwr, arbenigwr ymddygiad a therapydd...ond er bod y llwyth gwaith yn mynd yn fwy o hyd, mae fy nghariad at y bobl ifanc a'r balchder fi'n dei deimlo pan fi'n eu gweld yn llwyddo'n fy ysgogi i ddal ati pob dydd. Mae toriadau mor niweidiol ac yn y 23 mlynedd fi wedi gweithio yn yr ysgol, mae wedi newid gymaint o ganlyniad. Mae gyda ni lai o staff ond mwy o blant ar ein llyfrau ac mae anghenion y plant a'r bobl ifanc yn newid gyda'r oes. Mae'n bryder aruthrol bod ysgolion yn wynebu a phrofi toriadau i'w cyllidebau a bydd yn rhaid diswyddo staff yn orfodol. Ni ddim yn haeddu hyn ac yn sicr dyw ein plant a'n myfyrwyr ddim yn haeddu hyn.



16

Mae'r oes yn newid a chostau byw'n cynyddu. Fel staff cymorth ni'n gwneud ein gorau oherwydd ni'n dosturiol a ni moyn helpu ein myfyrwyr i dyfu, ond heb os ni'n haeddu cael ein cydnabod am ein gwaith, ac i gyd am gyflog sydd prin yn ein cynnal drwy'r mis fel bo'n teuluoedd ni ein hunain yn cael trafferth ymdopi. Mae unrhyw ddyfodol gyda thoriadau'n codi braw mawr.



17

**Jan Davies**
Cadeirydd,
Pwyllgor Llywodraeth Leol UNISON Cymru

Mae cyllid awdurdodau lleol dan fwy o straen nag erioed o'r blaen. Mae'r pwysau ar gyllidebau cynghorau'n mynd yn drymach ond y galw am wasanaethau'n parhau i gynyddu.

Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau hanfodol fel rheoli gwastraff, cynllunio lleol, cynnal mannau cyhoeddus fel parciau a llyfrgelloedd, gofal cymdeithasol, iechyd cyhoeddus, ein seilwaith trafnidiaeth a heb anghofio rhedeg ysgolion, rhoi trwyddedau a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Mae'r gwasanaethau hyn i gyd yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y cyngor, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, neu drwy eu comisiynu gan drydydd partïon i gwrdd ag anghenion penodol ein cymunedau lleol.

Mae canran uchel o bobl yn anymwybodol o'r holl wasanaethau y mae'r awdurdod lleol yn eu darparu tan fydd eu hangen arnyn nhw.

Rhaid i lywodraeth leol gael ei hariannu'n iawn i gwrdd ag anghenion y cymunedau a wasanaethir ganddyn nhw. Ni allwn fforddio â cholli mwy o'n gwasanaethau.



18

**Gwawr Eilian**

Ysgrifennydd Cangen,
UNISON Gwynedd, Môn a Prifysgol Bangor

Fel cymdeithas, ‘da ni gyd yn dibynnu ar wasanaethau’r llywodraeth leol. Byddai’n anodd iawn, os nad yn amhosibl i ni fyw ein bywydau bob dydd heb yr amrywiaeth enfawr o wasanaethau maen nhw’n eu darparu i ni.

Mae trigolion ein sir yn haeddu, ac yn disgwyl, yr ansawdd uchaf gan lywodraeth leol ac mae’r staff maen nhw’n eu cyflogi’n gwneud eu gorau i sicrhau hynny. Maent yn gofalu am bawb, gan gynnwys y rhai mwyaf bregus. Ond mae cost i hyn i gyd, ac os ydym am gyflogi’r staff gorau, a’u cadw yn y gwaith, rhaid sicrhau fod hyn oll yn cael ei ariannu’n deg ac yn gywir, gan ddangos parch i’r rhai sy’n aml yn cyflawni swyddi anodd iawn.

O ariannu’r llywodraeth leol yn gywir, rydym i gyd ar ein hennill fel cymdeithas.

**Karen Garland**
Gweithiwr Cartref Gofal
Cyngor Dinas Casnewydd

Fi wedi gweithio mewn cartrefi gofal preswyl ac EMI ers 1987. Fi wedi gweithio ar draws tri chartref a fi wrth fy modd yn gofalu am fy nghleientiaid a chefnogi eu teuluoedd.

Ar ôl gweithio i awdurdod lleol ers 38 o flynyddoedd, fi wedi gweld sut y mae cartrefi awdurdod lleol yn cefnogi teuluoedd drwy ofalu am eu hanwyliaid.

Gyda llawer o staff yn gweithio'n ddi-dor yn yr un math o amgylchedd, mae'n cynnig cysondeb a lefel uchel o dosturi a phroffesiynoldeb.

Mae rhai staff wedi gofalu am fwy nag un genhedlaeth o deuluoedd a chreu perthynas gyda nhw.

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

**Aled Lewis**
Cyfarwyddwr gyda
Sefydliad Pêl-Droed Cymru

Sefydliad Pêl-droed Cymru (CFF) yw braich elusennol Cymdeithas Pêl-Droed Cymru ac mae ganddo darged uchelgeisiol o sefydlu cyfleusterau pêl-droed o safon uchel ym mhob cymuned yng Nghymru, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sydd fwyaf eu hangen.

Mae'r CFF wedi gweithio mewn partneriaeth â nifer o awdurdodau lleol ledled Cymru ac eisoes wedi buddsoddi £20m mewn datblygu cyfleusterau gyda £15m ychwanegol wedi'i godi mewn cyllid partneriaeth, sy'n cynnwys cyfran helaeth gan awdurdodau lleol.

Mae'r CFF a'r FAW hefyd yn ddiweddar wedi cyhoeddi cynlluniau i greu 22 cynllun cyfleusterau pêl-droed lleol**, gan weithio mewn cydweithrediad â phob un o'r 22 awdurdod lleol i adnabod y math o gyfleusterau sydd eu hangen ar draws pob rhan o Gymru.

Bydd y cynlluniau hyn yn helpu i flaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sydd fwyaf ei angen fel bod gan blant, pobl ifanc ac oedolion fynediad at gyfleusterau o'r safon uchel er mwyn gwella iechyd corfforol a lles meddwl. Mae taer angen sicrhau bod digon o gyllid ar gael i ddatblygu'r seilwaith hwn.

** https://faw.cymru/cff/news/local-football-facility-plans/




**Chris James**
Gofalwr, Sir Fynwy

Fi’n gofalu am aelod o’r teulu ac roeddwn yn teimlo’n ynysig iawn. Penderfynais gysylltu gyda Chyngor Sir Fynwy.

Cefais fy nghyfeirio at Adferiad gan Zoe Fisher o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Fynwy.

Fyddwn i wedi gwybod dim am Adferiad a’u cymorth heb i Zoe fy nghyfeirio.

Mae’r cymorth gofalwyr fi wedi’i gael gan Adferiad ers hynny wedi bod yn anhygoel.





## **Defnyddwyr Gwasanaeth** – Adferiad & Diverse Cymru

Mae Adferiad & Diverse Cymru yn sefydliad darparu gwasanaeth ac ymgyrchu di-wneud-elw yng Nghymru sy’n darparu dros 150 o wasanaethau i gynnig cymorth arbenigol wedi’i deilwrio i bobl ag anghenion cymhleth sy’n wynebu amgylchiadau anodd, a hefyd yn hyrwyddo gwlad heb ragfarn na gwahaniaethu. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru’n gyllidwyr hollbwysig sy’n chwarae rhan annatod mewn helpu i ddarparu cenhadaeth Adferiad, gan gynnwys Ymyrryd yn Gynnar mewn Seicosis (EIP) a gwasanaethau cysylltyddion cymunedol.

*“Roeddwn dan fy nhîm EIP lleol ac wedi cael mynediad at wasanaeth Tŷ Amman drwy fy therapydd galwedigaethol. Roedd y cyfeiriad hwn yn hollbwysig. Mae’n debyg na fyddwn wedi darganfod y gwasanaeth hebddo. Roedd y sesiynau hunan-reoli’n ddefnyddiol iawn a fi hyd yn oed wedi rhedeg ychydig o sesiynau fy hun, mae’r cymorth fi wedi’i gael wedi bod yn amhrisiadwy”* - Alex

*“Collais fy ngwaith ar ôl 20 mlynedd ac roeddwn yn cael trafferth ymdopi oherwydd y menopos a theimlo na allai neb fy helpu. Fe glywais am Adferiad drwy fy manc bwyd lleol ac mae e wedi bod yn allweddol i fy adferiad. Roedd y cymorth yn anhygoel, achubodd Adferiad fy mywyd.”* – Andrea

**Defnyddwyr gwasanaeth Cysylltyddion Cymunedol**

*‘Roedd y staff y siaradais gyda nhw nid yn unig yn deall, doedden nhw ddim yn fy rhuthro ‘chwaith.’*

*‘Mae’r gwasanaeth mor wych; mi es o fod yn isel iawn i edrych ymlaen at gael dyfodol. Fi’n gwneud cyrsiau ar-lein ac yn bwriadu dechrau hyfforddiant mentora cyd-brofiad ar ôl y Nadolig, alla i ddim aros.’*

*‘Byddwn i wedi dirywio’n sydyn iawn ac efallai wedi gorfod mynd i ysbyty iechyd meddwl heb y gwasanaeth hwn.’*

# John Lane

## Gweithiwr Gofal Dementia – Cyngor Dinas Casnewydd



Fi wedi gweithio mewn llywodraeth leol ers dros 30 mlynedd mewn gwahanol feysydd gofal cymdeithasol.

Fi wedi gweld pa mor galed y mae awdurdodau wedi gorfod gweithio i sicrhau'r hyfforddiant a'r gwasanaethau diweddaraf ac i gael y wybodaeth orau a diweddaraf ar sail yr ymarferwyr blaenllaw yn eu meysydd arbenigol.

Ni'n parhau i gwestiynu a gwella ein gwasanaethau er mwyn gallu darparu gwasanaeth modern ac effeithiol i'n holl ddefnyddwyr pob amser.

Fi'n weithiwr gofal a chymorth dementia.



## **Bryan Davies**
## Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion




Yma yng Ngheredigion, mae ein cymunedau'n glos a gwydn. Ni'n gofalu am ein gilydd ac mae gwasanaethau llywodraeth leol wrth galon hynny. P'un ai yw e'n ofalwr yn ymweld â rhywun yn eu cartref, yn athro neu athrawes yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf neu'n dîm yn gweithio'n galed i gadw ein mannau cyhoeddus yn groesawgar, mae'r gwasanaethau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl pob dydd.

Mae gyda ni boblogaeth sy'n heneiddio a galw cynyddol am ofal a chymorth. Fi'n gweld ymroddiad ein gweithwyr gofal drosof fy hun – pobl sy'n mynd y filltir arall, yn ddirwgnach yn aml, i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu byw gydag urddas, bod teuluoedd yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw a bod unigolion ag anghenion ychwanegol yn gallu byw bywydau llawn ac annibynnol. Mae'r ymroddiad hwnnw'n haeddu cyllid teg a chynaliadwy.

Fi hefyd moyn cydnabod y rôl bwysig y mae ein cynghorau tref a chymuned yn ei chwarae. Drwy helpu i gynnal parciau, mannau gwyrdd, toiledau cyhoeddus a chyfleusterau lleol gwerthfawr eraill, maen nhw'n gymorth enfawr gan adlewyrchu ysbryd y bartneriaeth sy'n cadw ein cymunedau'n gryf. Ond mae angen cyllid teg arnyn nhw hefyd i barhau i wneud hyn.

Y realiti yw nad yw'r cyllid presennol sy'n cael ei roi i lywodraeth leol yng Nghymru'n ddigon o bell ffordd i gwrdd â'r pwysau a wynebwn. Mae sut y mae Cymru'n cael ei hariannu drwy fformiwla Barnett yn annheg ac wedi hen ddyddio. Dyw e ddim yn adlewyrchu'r wir gost o ddarparu gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion, na'r galw cynyddol a welwn bob dydd.

Mae cynghorau'n gwneud eu gorau glas i ddiogelu gwasanaethau hanfodol ond heb fuddsoddiad iawn mae pen draw ar hynny hefyd. Byddai setliad cyllid tecach gan Lywodraeth Cymru, ac ail-feddwl o ddifrif am fformiwla Barnett, yn rhoi'r adnoddau i ni gefnogi ein cymunedau yn y ffordd y maen nhw'n ei haeddu.

Nid gwleidyddiaeth pleidiau yw hyn ond mater o degwch. Mater o sicrhau bod pobl Ceredigion ac ar draws Cymru'n parhau i dderbyn y gofal, cymorth a'r cyfleoedd y mae llywodraeth leol gref yn ei roi iddyn nhw. Mae buddsoddi mewn gwasanaethau lleol yn fuddsoddiad mewn pobl, cymunedau ac yn nyfodol Cymru.

**John Byrne**
Ysgrifennydd Cangen,
UNISON Sir Powys




Fi wedi byw ym Mhowys a gweithio i Gyngor Sir Powys ers dros 21 o flynyddoedd. Mae gweithwyr cyngor yn cefnogi pawb yn ein cymunedau, o'r crud i'r bedd.

Mae'n teimlo fel ddoe pan oedd gweithwyr y Cyngor yn arwyr yn ystod Covid, gan gadw popeth i fynd ym Mhowys a chymaint o bobl eraill yn gallu gweithio o gartre. Roedd ein fflyd o lorïau graeanu'n trin dros 1400km o lonydd pob awr o'r dydd a'r nos ac ym mhob tywydd, rhywbeth na allai gael ei wneud y tu ôl i liniadur, a staff ysgolion yn troi lan pob dydd. Felly hefyd ein gweithwyr gwastraff ac ailgylchu, gofal cymdeithasol, torwyr beddau a'r holl weithwyr eraill sy'n darparu gwasanaethau mewn byd o newid a hinsawdd sy'n newid.

Mae llawer o siarad am bartneriaeth gymdeithasol ond mae llawer o weithwyr cyngor ym Mhowys yn teimlo eu bod 'allan o olwg, allan o feddwl' ac yn berthynas dlawd o ran derbyn cyllid fel sir fawr a gwledig.

Mae angen sgwrs agored, onest a thryloyw am gyllid a thrafodaeth am werth ataliol, nid dim ond cost.

Fel ardal heb ysbyty cyffredinol, rhaid i Bowys wneud mwy i gadw pobl yn eu cartrefi a rhoi gofal i bobl yn y gymuned leol, naill ai drwy wasanaethau gofal sylfaenol a'r fferyllfa leol neu drwy botensial aruthrol gwasanaethau eraill sy'n cael eu darparu gan Gyngor Sir Powys, fel y gwasanaeth Cysylltyddion Cymunedol anhygoel, hamdden, tai, cwnsela a gofal, i enwi ond rhai.

Mae cyni'n ddewis gwleidyddol. Ond mewn llywodraeth leol, mae hefyd yn un o hunan-niwed mawr. Mae gwasanaethau ataliol y cyngor nid yn unig yn helpu ein pobl heddiw ond hefyd yn gallu dileu'r angen am ymyriadau ymatebol llawer drytach yn y dyfodol fel ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol sydd dan gymaint o bwysau, y system cyfiawnder troseddol ac anweithgarwch economaidd.

Ni all y dewisiadau cyllido hyn barhau i gael eu cicio, fel can diod, i lawr y 1300 milltir o lonydd ym Mhowys. Mae angen penderfyniadau dewr ac aeddfed a rhaid eu gwneud nawr.

## UNISON Cymru

Gyda thros 35,000 o aelodau, UNISON Cymru yw'r undeb llafur mwyaf o ran maint a dylanwad mewn llywodraeth leol ac ysgolion yng Nghymru.

Mae ein haelodau'n gweithio mewn ysgolion, gofal cymdeithasol, gwasanaethau cymdeithasol, cyllid, gwastraff ac ailgylchu, Adnoddau Dynol, cynllunio, peirianneg, gwasanaethau democrataidd, rheoli adeiladu, caffael, iechyd yr amgylchedd, tai, cyfreithiol, comisiynu, maethu a mabwysiadu, llyfrgelloedd, eiddo, amgueddfeydd, hamdden, cymorth budd-daliadau, parcio a chynaliadwyedd, a llawer mwy.

Drwy weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a Llywodraeth Cymru, ni'n sicrhau bod anghenion a hawliau gweithwyr llywodraeth leol, a'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu, yn cael eu cydnabod, hyrwyddo a'u hamddiffyn.

Fel undeb llafur sy'n ymgyrchu'n gyson ac wedi'i wreiddio yn ein cymunedau, mae UNISON Cymru'n credu bod yn rhaid darparu'r gwasanaethau lleol hanfodol y mae ein cymunedau'n dibynnu arnyn nhw, ac sy'n cael eu darparu gan ein haelodau, yn ddielw.

Credwn mai'r ffordd orau o ddarparu'r gwasanaethau hyn yw drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn ddemocrataidd atebol, yn perfformio'n dda, wedi eu hariannu'n iawn a gyda safonau cyflogaeth uchel i recriwtio a chadw'r staff gorau i'w rhedeg.

**cymru-wales.unison.org.uk**
**cymru@unison.co.uk**